

**2006 Rhif (Cy. )**

**IECHYD PLANHIGION,  
CYMRU**

**Côd Ymarfer er mwyn Rhwystro a  
Rheoli Ymlediad Llysiau'r  
Gingroen**

**2006**

*Wedi'i wneud* 2006

*Yn dod i rym* 14 Mehefin 2006

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pŵer o dan adran 1A(1) o Ddeddf Chwyn 1959, yn gwneud y Côt Ymarfer er mwyn Rhwystro a Rheoli Ymlediad Llysiau'r Gingroen 2006 ("y Côt").

Gwneir y Côt yn unol â'r weithdrefn a nodir gan Reoliad Sefydlog 29 Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Atodir y Côt fel atodiad i'r mynegai hwn.

Arwyddwyd

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

---

---

## CYNNWYS

	Paragraffau
<b>Crynodeb Gweithredol</b> .....	1-8
<b>Cefndir</b>	
Gwybodaeth am y Cod .....	9-13
Deddfau'n Rheoli Ymlediad Llysiâu'r gingroen .....	14-15
Cyfrifoldebau ar gyfer Rheoli Ymlediad Llysiâu'r gingroen .....	16-17
Camau Gweithredu Angenrheidiol i Reoli Ymlediad Llysiâu'r gingroen .....	18-21
Cyngor .....	22-24
<b>Pam Rheoli Llysiâu'r Gingroen?</b>	
Cyflwyniad .....	25-28
Natur Wenwynig .....	29-31
Risg i Iechyd Anifeiliaid .....	32-35
Risg i Iechyd Pobl .....	36-37
<b>Polisïau Rheoli</b>	
Cyflwyniad .....	38-41
Polisïau Rheoli .....	42-49
Diffinio Categoriâu Risg .....	50-52
Darpariaethau Arbennig ar gyfer Categoriâu Penodol o Dir	
• Neilltir .....	53
• Amaethu Organig .....	54
• Cynlluniau Amaeth-Amgylcheddol .....	55-57
• Safleoedd dynodedig yn cynnwys Gwarchodfeydd Natur a Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) a Safleoedd Cadwraeth eraill yn Ewrop .....	58-65
• Henebion Rhestredig .....	66-67
• Tir Comin .....	68-69
• Tir a Ddefnyddir ar Gyfer Pori .....	70-73
• Cynhyrchu Porthiant .....	74-80
• Tir glas Amwynder .....	81-83
• Priffyrdd .....	84-87
• Rheilffyrdd .....	88-90
• Ardaloedd Dyfrol .....	91-93
• Coetiroedd a Choedwigoedd .....	94-95
• Tir Datblygu, Gwastraff a Diffaith .....	96-99
• Tir Amddiffyn .....	100-101
<b>Hysbysu</b> .....	102-105
<b>Dulliau Rheoli</b>	
Cyflwyniad .....	106-107
Rheoli Tir mewn dull Ataliol .....	108-113
Trin yn Amaethyddol .....	114
• Pori .....	115
• Tynnu a Chodi Gydag Offer .....	116-120
• Torri .....	121-125

• Llosgwyr .....	126-129
Cemegol	
• Defnyddio Chwynladdwyr .....	130-136
• Cyfyngiadau Cyfreithiol .....	137-140
• Cyfyngiadau Pori .....	141-142
• Cyfyngiadau Amgylcheddol .....	143
• Dulliau Defnyddio .....	144-149
• Hyfforddi a Chofrestru'r rhai sy'n Chwistrellu .....	150
• Iechyd a Diogelwch .....	151
• Diogelwch Amgylcheddol .....	152-154
Biolegol .....	155-157
Crynodeb o Ddulliau Rheoli .....	158

### **Gofynion Iechyd A Diogelwch**

Ynglŷn â Chyffwrdd Planhigion Llysiau'r Gingroen .....	159-162
Ynglŷn â Lleoliad .....	163-167
Diogelwch .....	168-170
Awdurdod o Flaen Llaw .....	171-175
Cael Eich Gweld .....	176-179
Cerbydau .....	180
Arwyddion Rhybuddio .....	181-182

### **Cael Gwared Ar Lysiau'r Gingroen**

Cyflwyniad .....	183-184
Casglu .....	185
Gwaredu .....	186-189

### **Atodiadau**

Adnabod Llysiau'r Gingroen a'u Bioleg ( <i>Senicio Jacobaea</i> ) .....	Atodiad I
Adrannau'r Llywodraeth, Asiantaethau ac Awdurdodau Statudol .....	Atodiad II
Cyhoeddiadau Defnyddiol .....	Atodiad III
Ffynonellau Sy'n Rhoi Cyngor Technegol Ynglŷn â Rheoli Llysiau'r Gingroen .....	Atodiad IV

## CRYNODEB GWEITHREDOL

- 1 Mae planhigyn y creulys (*ragwort*) yn hynod wenwynig i anifeiliaid sy'n pori, pan fyddant yn pori porfa sydd wedi'i heintio gan greulys neu pan fyddant yn bwyta creulys mewn bwyd (glaswellt wedi'i sychu) neu borthiant (gwair, silwair sych a silwair). Mae ceffylau yn dueddol iawn o gael eu gwenwyno gan lysiau'r gingroen (*common ragwort*) ac mae peth gwybodaeth sy'n awgrymu y gallai fod yn beryglus i bobl.
- 2 Cyfrifoldeb deiliad y tir lle mae llysiâu'r gingroen yn tyfu yn anad neb yw rheoli ymlediad llysiâu'r gingroen. Dylai pob deiliad tir lle mae llysiâu'r gingroen yn tyfu gymryd camau rhesymol i'w hatal rhag ymledu i dir cyfagos. Mae hyn yn arbennig o wir lle mae ceffylau a da byw yn pori ar y pryd a lle defnyddir tir ar gyfer cynhyrchu bwyd neu borthiant ar gyfer ceffylau neu anifeiliaid eraill.
- 3 Llysiâu'r gingroen (*Senecio jacobaea*) yw'r unig rywogaeth o greulys a nodir yn Neddf Chwyn 1959 ac felly dyma'r unig rywogaeth sy'n berthnasol i ddarpariaethau'r Cod hwn. Mae holl rywogaethau'r creulys yn debygol o fod yr un mor wenwynig i anifeiliaid, ac mae'n bosib y bydd rhywogaethau eraill ac eithrio llysiâu'r gingroen angen eu rheoli pan fyddant yn risg uniongyrchol i geffylau a da byw sy'n pori neu'n fygythiad o ran cynhyrchu bwyd neu borthiant diogel i anifeiliaid.
- 4 Y ffordd fwyaf effeithiol o reoli llysiâu'r gingroen yw eu hatal rhag sefydlu yn y lle cyntaf drwy reolaeth strategol yn hytrach na thrwy eu rheoli ar y funud olaf. Drwy reoli tir glas, gall llysiâu'r gingroen fod yn llai tebygol o sefydlu. Mewn ardaloedd amwynder, ymylon priffyrdd, tir rheilffordd, a choetiroedd, bydd unrhyw weithgareddau sy'n codi'r pridd a'r planhigion sy'n tyfu ar ei wyneb yn cynyddu'r risg y bydd llysiâu'r gingroen yn sefydlu.
- 5 Mae tir sydd heb ei drin, ardaloedd gwastraff a diffaith yn ffynonellau a allai gael eu heintio gan lysiau'r gingroen. Dylai'r perchnogion/deiliaid a/neu eu hasiant fonitro'r tir y maent yn ei reoli i weld a oes llysiâu'r gingroen yno a chymryd camau priodol i reoli ei ymlediad lle mae'n fygythiad i dir sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer pori, neu ar gyfer cynhyrchu bwyd neu borthiant.
- 6 Dylai deiliaid tir gadw llygad barcud rhag ofn bod llysiâu'r gingroen yn tyfu ar y tir. O'i ganfod yn gynnar bydd yn haws, yn rhatach ac yn fwy diogel delio gydag unrhyw broblemau a allai godi.
- 7 Mae'r Cod hwn yn cydnabod bod llysiâu'r gingroen a rhywogaethau creulys eraill yn gynhenid i Ynysoedd Prydain ac felly maent yn rhan annatod o'n fflora a'n ffawna, ynghyd â chreaduriaid di-asgwrn-cefn a bywyd gwyllt eraill sy'n dibynnu arnynt. Mae tua 77 rhywogaeth o lysysorion sy'n bryfed yn bwydo ar lysiau'r gingroen, gan gynnwys 27 rhywogaeth o wyfynod. Mae 30 o greaduriaid di-asgwrn-cefn yn gwbl ddbynnol ar lysiau'r gingroen, gan gynnwys gwyfyn y creulys a 7 rhywogaeth o ficrowyfynod. Nid yw'r Cod yn argymhell cael gwared yn llwyr ar lysiau'r gingroen ond mae'n hybu dull strategol o reoli'i ymlediad pan fo'n risg i iechyd a lles anifeiliaid sy'n pori ac o ran cynhyrchu bwyd neu borthiant.

- 8 Mae'r Cod hwn yn darparu canllawiau ynghylch pa gamau y dylid eu cymryd a phryd y dylid eu cymryd er mwyn rheoli ymlediad llysiâu'r gingroen. Mae'n darparu gwybodaeth werthfawr ar gyfer perchnogion tir, deiliaid tir, rheolwyr tir a chontractwyr sy'n gyfrifol am reoli tir wrth wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch strategaethau rheoli tir amaethyddol (yn cynnwys ardaloedd a borir gan geffylau), tir amaethyddol gyda chnydau a heb gnydau, coedwigoedd a choetiroedd, ardaloedd diwydiannol ac amwynder, ymylon ffyrdd, rheilffyrdd, ardaloedd dyfrol a chynefinoedd lled-naturiol gan gynnwys ardaloedd cadwraeth natur.

## **CEFNDIR**

### **Gwybodaeth am y Cod**

- 9 Mae'r Cod Ymarfer hwn yn ganllaw ymarferol i helpu cyrff cyhoeddus, awdurdodau perthnasol, perchnogion a deiliaid tir i reoli ymlediad llysiâu'r gingroen yn unig. Mae'n anelu i reoli ymlediad llysiâu'r gingroen, ac felly helpu i atal marwolaeth ceffylau a da byw sy'n pori tir lle mae llysiâu'r gingroen yn bla a rhag bwyta bwyd neu borthiant sydd wedi'i heintio gan llysiâu'r gingroen. Nid amcan y Cod hwn yw ceisio rheoli ymlediad llysiâu'r gingroen pan nad yw'n fygythiad i iechyd a lles anifeiliaid, i fwyd neu borthiant neu weithgareddau amaethyddol eraill.
- 10 Bydd y Cod hwn, sy'n berthnasol i Gymru'n unig, yn cael statws tystiolaethol mewn unrhyw weithrediadau dan y Ddeddf Chwyn drwy'r Mesur Rheoli Llysiâu'r gingroen. Bydd hyn yn golygu na fydd yn drosedd os na chedwir at y Cod hwn, ond mae'n bosibl y bydd yn cael ei ddefnyddio fel tystiolaeth mewn unrhyw weithredu cyfreithiol. Er hynny, dylai perchnogion/deiliaid allu sefydlu amddiffyniad os gallant ddangos bod camau rheoli sy'n cydymffurfio â'r Cod hwn yn eu lle. Dylai unrhyw ymarferion newydd ar gyfer rheoli ymlediad llysiâu'r gingroen, nad ydynt wedi'u cynnwys yn y Cod hwn, ddilyn yr egwyddorion cyffredinol a amlinellir ynddo.
- 11 Mae'r Cod hwn yn darparu crynodeb o'r ddeddfwriaeth ar gyfer rheoli llysiâu'r gingroen a chanllawiau ynglŷn â pha gamau a ystyrir yn rhesymol i atal llysiâu'r gingroen rhag ymledu, pan fo rhybudd wedi'i gyhoeddi gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru dan Adran 1 o Ddeddf Chwyn 1959 sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r deiliad weithredu i atal llysiâu'r gingroen rhag ymledu.
- 12 Dylai unrhyw gamau a gymerir i reoli ymlediad llysiâu'r gingroen ystyried yr effeithiau amgylcheddol a gaiff y dulliau rheoli a'r angen i warchod cefn gwlad a chynnal bioamrywiaeth.
- 13 Mae'r Cod hwn yn cydnabod bod llysiâu'r gingroen yn blanhigyn gwenwynig a bod risgiau iechyd a diogelwch y mae'n rhaid eu hystyried trwy asesiadau priodol a digonol cyn cymryd unrhyw gamau i reoli llysiâu'r gingroen neu weithgareddau clirio.

### **Deddfau'n Rheoli Ymlediad Llysiau'r gingroen**

- 14 Mae Ddeddf Chwyn 1959 yn rhoi pwerau gorfodi statudol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Os cytunir bod chwyn niweidiol yn tyfu ar unrhyw dir, gall y Cynulliad roi rhybudd sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r deiliad gymryd camau er mwyn atal y chwyn dan sylw rhag ymledu. Mae unrhyw fethiant afresymol i gydymffurfio â rhybudd yn drosedd. Y chwyn sy'n berthnasol i'r ddeddfwriaeth hon yw: llysiau'r gingroen (*Senecio jacobaea*); marchysgall (*Cirsium vulgare*); ysgall y maes (*Cirsium arvense*); tafol crych (*Rumex crispus*); tafol y cŵn (*Rumex obtusifolius*)<sup>1</sup>.
- 15 Mae'r Ddeddf Chwyn 1959 yn galluogi'r Cynulliad i ymchwilio i gŵynion i weld a oes perygl i chwyn niweidiol ymledu.

### **Cyfrifoldebau ar gyfer Rheoli Ymlediad Llysiau'r gingroen**

- 16 Cyfrifoldeb deiliad y tir lle mae'r chwyn yn tyfu yn anad neb yw rheoli chwyn. Mae'r cyfrifoldeb hwn yr un mor berthnasol i llysiau'r gingroen ag yw i chwyn niweidiol eraill a nodir yn Neddf Chwyn 1959. Wrth geisio rheoli ymlediad llysiau'r gingroen disgwylir i holl berchnogion tir, deiliaid a rheolwyr gydweithredu a bod yn gydgyfrifol am sicrhau bod llysiau'r gingroen yn cael eu rheoli'n effeithiol rhag iddynt ymledu.
- 17 Mae darpariaethau'r Ddeddf yn berthnasol i llysiau'r gingroen yn unig ac nid ydynt yn berthnasol i rywogaethau creulys eraill. Er hynny, mae'n bosibl y bydd yn rhaid rheoli ymlediad y mwyafrif o rywogaethau creulys pan fyddant yn risg uniongyrchol i geffylau ac anifeiliaid eraill oni bai ei bod yn rhywogaeth a ddiogelir fel creulys y siglen.

### **Camau Gweithredu Angenrheidiol i Reoli Ymlediad Llysiau'r gingroen**

- 18 Pan fo tir wedi'i effeithio gan llysiau'r gingroen dylid cynnal asesiad o'r angen i reoli'r chwyn. Pan fo risg y gallai'r llysiau'r gingroen sydd ar y tir fod yn niweidiol i geffylau neu dda byw sy'n pori neu'n risg o ran cynhyrchu bwyd neu borthiant, yna dylid gweithredu rhaglen i reoli ei ymlediad.
- 19 Pan fo tir wedi'i effeithio gan llysiau'r gingroen, ac y gallai ymledu i dir lle gallai fod yn niweidiol i geffylau neu dda byw sy'n pori, neu'n risg o ran cynhyrchu bwyd neu borthiant neu weithgareddau amaethyddol eraill, yna dylid gweithredu rhaglen i reoli ei ymlediad.
- 20 Pan na fo risg ar unwaith, ond y gallai llysiau'r gingroen beri risg yn y dyfodol, yna dylid paratoi cynlluniau argyfwng ar gyfer eu rheoli.
- 21 Pan na fo risg ar hyn o bryd a'i bod yn annhebygol y bydd llysiau'r gingroen yn peri risg i anifeiliaid a chnydau sy'n dueddol o gael eu heffeithio gan y chwyn

---

<sup>1</sup> Mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru y pŵer i ychwanegu at y rhestr hon lle bo gofyn am hynny.

oherwydd ei leoliad, yna nid yw'n ofynnol cymryd unrhyw gamau gweithredu ar unwaith i reoli ymlediad llysiâu'r gingroen, er y dylid monitro'r sefyllfa ac ail-asesu'r risgiau pe bai'r amgylchiadau'n newid.

## Cyngor

- 22 Mae cyngor ynghylch y Ddeddf Chwyn a rheoli llysiâu'r gingroen ar gael gan yr Is-adran Datblygu Bwyd a'r Farchnad sy'n dosbarthu nifer o ganllawiau a restrir yn Atodiad III: Cyhoeddiadau Defnyddiol.
- 23 Mae cyngor technegol hefyd ar gael gan amryw o gyrff a restrir yn Atodiad IV.
- 24 Gellir cael cyngor hefyd gan gyrff sy'n gyfrifol am reoli tir y maent yn berchen arno a/neu yn ei reoli h.y. Cyfarwyddiaeth Trafnidiaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru, Awdurdod Priffyrdd Lleol, Rhwydwaith Rheilffyrdd, Dyfrffyrdd Prydain, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Cadw, Comisiwn Coedwigaeth (Cymru), Y Weinyddiaeth Amddiffyn ac Awdurdodau Lleol (Atodiad II).

## PAM RHEOLI LLYSIAU'R GINGROEN?

### Cyflwyniad

- 25 Mae llysiâu'r gingroen (*S. jacobaea*) yn aelod o deulu *Compositae* **Compositae** (bellach yr **Asteraceae in Stace**) ac mae'n un o 27 o rywogaethau o leiaf a geir yn y DU heb gynnwys rhywogaethau croesryw. Mae'r genws *Senecio* hefyd yn cynnwys, er nad yw wedi'i gyfyngu i Benfelen y Gors (*S. aquaticus*), Penfelen Ledlwyd (*S. erucifolius*), Creulys Rhydychen (*S. squalidus*) a'r Creulys Cymreig (*S. cambrensis*).
- 26 Mae rhywogaethau llysiâu'r gingroen yn cyfrannu ar werth bioamrywiaeth nifer o gynefinoedd ac maent yn ffynhonnell bwysig o fwyd i lawer o greaduriaid di-asgwrn-cefn. Trafodir sut i adnabod rhywogaethau llysiâu'r gingroen a'u bioleg yn Atodiad I.
- 27 Mae rhywogaethau llysiâu'r gingroen yn cynnwys alcaloidau pyrolisidin (PAs) sydd â phriodoleddau gwenwynig i anifeiliaid a phobl.
- 28 O blith y gwahanol aelodau o deulu'r creulys, llysiâu'r gingroen yn unig sy'n berthnasol i ddarpariaethau Deddf Chwyn 1959 a'r Cod Ymarfer hwn.

Formatted: Bullets and Numbering

### Natur Wenwynig

- 29 Mae'r gyfran o alcaloidau pyrolisidin yn llysiâu'r gingroen yn amrywio yn ôl cyfnodau tyfiant, y tymhorau a'r ardal ddaearyddol.
- 30 Mae effeithiau gwenwynig alcaloidau pyrolisidin yn fwyaf amlwg yn yr iau er bod tystiolaeth nad yw'r alcaloidau pyrolisidin eu hunain yn wenwynig i'r iau ond mae'n bosibl iddynt gael eu metaboleiddio yn yr iau i gyfuno ag elfennau pyrol sy'n wenwynig.

- 31 Nodwedd allweddol yw nad yw'r alcaloidau pyrolisidin sy'n bresennol yn llysiau'r gingroen yn cael eu dinistrio pan sychir y planhigyn neu pan gaiff ei gadw fel porthiant (wrth i laswellt gael ei sychu, wrth gynaeafu gwair, ac wrth gynhyrchu silwair sych a silwair) neu pan gaiff y planhigyn ei drin yn gemegol neu'n amaethyddol er mwyn ei reoli.

### **Risg i Iechyd Anifeiliaid**

- 32 Mae achosion o wenwyno o ganlyniad i llysiau'r gingroen yn digwydd yn aml mewn achosion o blanhigion yn gwenwyno anifeiliaid sy'n pori ym Mhrydain. Mae'r holl anifeiliaid mewn perygl gan yr effeithiau gwenwynig os ydynt yn bwyta llysiau'r gingroen trwy bori'r planhigyn neu trwy ei fwyta yn y porthiant.
- 33 Mae gwenwyn llysiau'r gingroen yn cael effaith gynyddol ac felly mae bwyta ychydig ohono dros gynfod hir yn gallu bod yn beryglus. Gall arwyddion o wenwyn llysiau'r gingroen fod yn araf i ddatblygu, ac mae'n bosibl na fydd yn amlygu eu hun nes bod yr anifeiliaid wedi bod yn ei fwyta am nifer o wythnosau neu fisoedd; gall arwyddion ddod i'r amlwg hyd yn oed pan fydd yr anifail wedi rhoi'r gorau i'w fwyta.
- 34 Gall gwenwyno hefyd ddigwydd yn sydyn ac nid yw'n anghyffredin i anifeiliaid sydd wedi'u heffeithio farw o fewn ychydig ddiwrnodau o ddangos y symptomau clinigol. Ni ellir dadwneud y niwed i'r iau ac nid oes triniaeth effeithiol ar gael.
- 35 Nodwedd arbennig o llysiau'r gingroen yw bod yr alcaloidau pyrolisidin sy'n bresennol yn y planhigyn byw yn parhau'n wenwynig yn y planhigyn marw h.y. pan fydd wedi gwywo, wedi sychu neu wedi ei gynaeafu mewn bwyd neu borthiant. Gall dulliau rheoli gwael sy'n gadael y planhigion marw neu rannau wedi'u torri o'r planhigyn heb eu symud gynyddu'r risg i anifeiliaid.

### **Risg i Iechyd Pobl**

- 36 Y brif ffordd y gall alcaloidau pyrolisidin ganfod eu ffordd i fwydydd yw trwy brif fwydydd sydd wedi'i heintio h.y. grawn, llefrith, wyau a mêl. Mae bwydydd sydd wedi'u heintio gan amlaf i'w canfod mewn gwledydd sydd dan anfantais economaidd. Nid ystyrir bod fawr o risg i iechyd pobl yn y DU o brif fwydydd wedi'u heintio gan llysiau'r gingroen.
- 37 Mae pryder am risg i iechyd pobl yn gysylltiedig â thynnu planhigion llysiau'r gingroen gyda llaw fel modd o reoli poblogaeth llysiau'r gingroen. Ni wyddom a yw'n bosibl i alcaloidau pyrolisidin gael eu hamsugno drwy'r croen, er bod tystiolaeth anecdotaidd yn nodi bod hynny'n bosibl. Cynghorir gwisgo trowsus a menig amddiffynnol addas felly wrth afael mewn planhigion llysiau'r gingroen a'u tynnu.



## POLISIŌAU RHEOLI

### Cyflwyniad

- 38 Pan fo tir wedi'i effeithio gan lysiau'r gingroen dylai'r tîrfeddiannwr wneud asesiad o'r angen i reoli ei ymlediad. Mae'r adran hon yn darparu canllawiau ynglŷn â pharatoi polisiau rheoli, sut i asesu'r risg gan y planhigyn a'r angen yn sgîl hynny i reoli ymlediad llysiâu'r gingroen.
- 39 Dylai ymdrechion i reoli ymlediad llysiâu'r gingroen gael eu targedu mewn safleoedd lle mae risg ganolig i uchel y bydd yr ymlediad yn cael effaith niweidiol ar geffylau ac anifeiliaid eraill sy'n pori, ar gynhyrchu bwyd a phorthiant neu ar weithgareddau amaethyddol eraill. Nid y bwriad yw dileu llysiâu'r gingroen drwy gefn gwlad.
- 40 Dylai perchnogion ceffylau/da byw sicrhau nad yw eu hanifeiliaid yn bwyta llysiâu'r gingroen. Yn yr un modd cyfrifoldeb deiliad y tir a ddefnyddir ar gyfer cynhyrchu porthiant yw sicrhau nad yw'r porthiant yn cynnwys llysiâu'r gingroen. Mae rheoli porfa'n dda yn elfen hanfodol er mwyn cadw'r tir yn rhydd o lysiau'r gingroen. Mae'r Cod hwn yn ymwneud ag atal ymlediad llysiâu'r gingroen ac nid yw'n delio gyda'r angen i gadw tir pori'n lân heb lysiau'r gingroen arno, er y bydd nifer o'r mecanweithiau rheoli a ddisgrifir yn y Cod yn berthnasol yn y sefyllfa honno hefyd.
- 41 Mae rheoli llysiâu'r gingroen yn ofyniad o dan GAEC C (sy'n ymdrin â Thanbori / Tanreoli) Trawsgydymffurfio. Mae hwn yn un o'r safonau sy'n gyson â chadw tir "mewn Cyflwr Amaethyddol ac Amgylcheddol Da". Mae Trawsgydymffurfio yn un o ofynion yr Undeb Ewropeaidd y mae'n rhaid i ffermwyr ei fodloni er mwyn cael derbyn y Taliad Sengl.

### Polisiau Rheoli

Formatted: Bullets and Numbering

- 42 Disgwylir i berchnogion tir, deiliaid tir, a rheolwyr tir preifat a chyhoeddus priffyrdd, dyfrffyrdd, rheilffyrdd, ardaloedd cadwraeth ac amwynder a thir sy'n aros i'w ddatblygu, fod â pholisiau yn eu lle ar gyfer adnabod, monitro a rheoli'r llysiâu'r gingroen sydd ar dir o dan eu rheolaeth yn briodol. Disgwylir i gyrff mwy fod â pholisiau ysgrifenedig i'r perwyl hwn a gallu dangos eu bod yn ymlynu wrth y polisiau hyn.
- 43 Dylai polisiau o'r fath ystyried yr angen i reoli llystyfiant, gan gynnwys rheoli chwyn ac adnabod llysiâu'r gingroen fel chwyn penodol y dylid eu rheoli lle bynnag y mae'n peri risg ganolig i uchel i les anifeiliaid.
- 44 Wrth ystyried beth sy'n ymarferol, dylai perchnogion/deiliaid/rheolwyr gydbwyso'r risg ochr yn ochr â'r amser a'r gost o weithredu, ac ystyried a yw'r gost o reoli'n gymesur â'r risg honno. Ar gyfer rhai categorïau o dir, e.e. tir rheilffordd a phriffyrdd, gall hyn olygu ei bod hi'n anymarferol cynnal gwaith arolygu yn rheolaidd ar bob daliad o dir. O dan amgylchiadau o'r fath, dylid defnyddio cwynion i gasglu gwybodaeth am ardaloedd lle y mae llysiâu'r gingroen yn ffynnu.

Formatted: Bullets and Numbering

Formatted: Bullets and Numbering

Formatted: Bullets and Numbering

| **45** Er enghraifft, pan na fo risg i dda byw sy'n pori a/neu dir glas a ddefnyddir ar gyfer cynhyrchu porthiant, a bod y gost o'i reoli'n uchel, yna efallai yr ystyrir nad yw'n rhesymol ymarferol i ymgymryd â'r gwaith o'i reoli. Ond os oes risg uchel i geffylau neu dda byw sy'n pori neu o ran cynhyrchu porthiant, yna hyd yn oed os yw'r gost yn uchel, dylid rhagdybio y bydd angen cymryd camau i reoli ymlediad llysiâu'r gingroen.

Formatted: Bullets and Numbering

| **46** Dylai polisïau nodi'r angen i fabwysiadu camau i reoli'r planhigyn yng nghyfnod cynnar ei dyfiant er mwyn lleihau'r risg o wasgaru hadau a thrwy hynny sicrhau bod y tir yn cael ei reoli'n fwy effeithiol yn y tymor hir.

Formatted: Bullets and Numbering

| **47** Dylai polisïau gymryd cyfrif o effaith rheoli llysiâu'r gingroen ar yr amgylchedd a sicrhau bod ystyriaeth briodol yn cael ei rhoi i'r angen i warchod iechyd anifeiliaid, cefn gwlad a chynnal bioamrywiaeth.

Formatted: Bullets and Numbering

| **48** Dylai polisïau hybu cydweithredu a chydweithio gyda chymdogion i sicrhau bod ymlediad llysiâu'r gingroen yn cael ei reoli'n effeithiol lle mae'n fygythiad i anifeiliaid sy'n pori ac i gynhyrchu bwyd a phorthiant.

Formatted: Bullets and Numbering

49 Dylai polisïau gydnabod mai'r ffordd fwyaf effeithiol o atal ymlediad llysiâu'r gingroen yw drwy reoli'r borfa'n dda a rheoli llysiâu'r gingroen yn sgîl hynny. Mewn Cod o'r natur hwn, mae'n amhosibl darparu arweiniad cynhwysfawr ar reoli porfa. Mae arfer gorau'n amrywio o dan amgylchiadau penodol a byddai dull gwahanol o reoli yn briodol o dan amgylchiadau gwahanol, e.e. mewn cysylltiad â glaswelltir a reolir neu laswelltir lled-naturiol heb ei wella. Mae dulliau eraill o reoli llysiâu'r gingroen yn cynnwys addysg a chodi ymwybyddiaeth.

### Diffinio Categoriâu Risg

| **50** Er mwyn eich helpu i wneud penderfyniad, argymhellir cynnal asesiad o'r angen i reoli llysiâu'r gingroen, fel y gellir asesu lefel y risg ar sail pob sefyllfa unigol a phenderfynu a oes angen ymateb, a lefel briodol yr ymateb.

Formatted: Bullets and Numbering

| **51** Mae'r dull hwn yn pennu tri o gategoriâu risg (manylir yn Nhabl 1) a chânt eu diffinio fel hyn:

Formatted: Bullets and Numbering

#### **Risg Uchel:**

- Tir lle mae llysiâu'r gingroen yn bresennol ac yn blodeuo/mynd i had o fewn 50m i geffylau neu anifeiliaid sy'n pori neu dir a ddefnyddir ar gyfer cynhyrchu bwyd/porthiant;

Formatted: Bullets and Numbering

#### **Risg Ganolig:**

- Tir lle mae llysiâu'r gingroen yn tyfu o fewn 50 - 100m i geffylau neu anifeiliaid sy'n pori neu dir a ddefnyddir ar gyfer cynhyrchu bwyd/porthiant.

### **Risg Isel:**

- Tir lle mae llyisiau'r gingroen i'w cael lle mae'r tir yn fwy na 100m oddi wrth geffylau neu anifeiliaid sy'n pori neu dir a ddefnyddir ar gyfer cynhyrchu bwyd/porthiant.

**Tabl 1** Categoriâu Risg

<b>Ardaloedd Risg Uchel</b>	
Diffiniad	Tir lle mae llyisiau'r gingroen yn bresennol ac yn blodeuo/mynd i had o fewn 50m i geffylau neu anifeiliaid sy'n pori neu dir a ddefnyddir ar gyfer cynhyrchu bwyd/porthiant.
Sefyllfa	Pori a chynhyrchu porthiant yn digwydd y cyffiniau.
Amcan	Rheoli ymlediad a lleihau i'r eithaf y risg y bydd llyisiau'r gingroen yn sefydlu o fewn yr ardal bori/gynhyrchu bwyd.
Camau gweithredu	Os yw'n blodeuo/mynd i had, mae angen gweithredu ar unwaith i gael gwared â'r perygl i dda byw sy'n pori trwy dynnu llyisiau'r gingroen neu drwy ei godi gydag offer. Os nad yw'r planhigyn wedi cyrraedd y cyfnod blodeuo/mynd i had neu os yw'r cyfnod hwnnw wedi mynd heibio, dylid cymryd camau mewn da bryd i'w atal rhag blodeuo yn y tymor presennol neu'r tymor nesaf. Yn y tymor hir, ceisiwch anelu i leihau lefelau llyisiau'r gingroen trwy fonitro a mabwysiadu camau rheoli addas.
Opsionau rheoli	Ffisegol, amaethyddol a chemegol.

<b>Ardaloedd Risg Ganolig</b>	
Diffiniad	Tir lle mae llysiâu'r gingroen yn tyfu o fewn 50 - 100m i geffylau neu anifeiliaid sy'n pori neu dir a ddefnyddir ar gyfer cynhyrchu bwyd/porthiant.
Sefyllfa	Lle mae anifeiliaid yn pori a/neu gynhyrchu bwyd yn digwydd a lle gallai llysiâu'r gingroen sy'n bresennol o fewn 100 metr wasgaru hadau gan heintio'r tir ac ymledu.
Amcan	Lleihau'r risg o wasgaru hadau trwy atal y planhigyn rhag mynd i had.
Camau gweithredu	Os yw'n blodeuo/mynd i had, mae angen gweithredu ar unwaith i gael gwared â'r perygl i dda byw sy'n pori trwy dynnu llysiâu'r gingroen neu drwy eu codi gydag offer. Os nad yw'r tyfiant wedi cyrraedd y cyfnod blodeuo/mynd i had neu os yw'r cyfnod hwnnw wedi mynd heibio, dylid cymryd camau mewn da bryd i'w atal rhag blodeuo yn y tymor presennol neu'r tymor nesaf. Yn y tymor hir, ceisiwch anelu i leihau lefelau llysiâu'r gingroen trwy fonitro a mabwysiadu camau rheoli addas.
Opsionau rheoli	Ffisegol, trin yn amaethyddol, cemegol a biolegol.

<b>Ardaloedd Risg Isel</b>	
Diffiniad	Tir lle mae llysiâu'r gingroen i'w cael lle mae'r tir yn fwy na 100m oddi wrth geffylau neu anifeiliaid sy'n pori neu dir a ddefnyddir ar gyfer cynhyrchu bwyd/porthiant.
Sefyllfa	Nid oes unrhyw anifeiliaid yn pori na bwyd yn cael ei gynhyrchu o fewn 100 m ac nid ydynt yn debygol o gael eu heintio.
Amcan	Gellir caniatáu llysiâu'r gingroen lle nad yw'n amlwg fod hadau'n cael eu gwasgaru i Ardaloedd Risg Uchel i Ganolig.
Camau gweithredu	Monitro'r defnydd o dir o fewn y gymdogaeth. Os yw'r tir hwn, o ganlyniad i newid defnydd, yn perthyn i Gategori Risg Uchel neu Ganolig yna bydd angen rheoli trwy drin yn amaethyddol a/neu gemegol i atal blodeuo / mynd i had.
Opsionau rheoli	Amaethyddol, cemegol a biolegol gan gynnwys rheolaeth ataliol.

52 Canllawiau yn unig yw'r pellteroedd a nodir uchod ac wrth asesu risg, dylid hefyd ystyried amgylchiadau lleol penodol a ffactorau lleol perthnasol eraill megis prifwyntoedd, topograffi, gwregysau cysgodi, rhwystrau naturiol, math y pridd, a math y llystyfiant sydd ar wyneb y tir. Pa un a yw dwysedd llysiâu'r gingroen yn uchel neu'n isel, bydd y ffactor risg yn cael ei bennu gan y tebygolrwydd ohono'n lledaenu i dir a ddefnyddir fel tir pori a/neu i gynhyrchu porthiant.

## Darpariaethau Arbennig ar gyfer Categoriâu Penodol o Dir

### Neilltir

**53** Mae neilltir, sef tir sydd wedi'i neilltuo rhag unrhyw gynhyrchu amaethyddol, yn ffynhonnell a allai gael ei heintio gan lysiau'r gingroen ac mae'n ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Ddeddf Chwyn yn yr un modd â thir arall.

Formatted: Bullets and Numbering

### Amaethu Organig

**54** Pan fo tir yn cael ei amaethu'n organig bydd cyfyngiadau o ran yr opsiynau rheoli y gellir eu defnyddio. (Dylid cael mwy o gyngor gan y cyrff a restrir yn Atodiad IV).

Formatted: Bullets and Numbering

### Cynlluniau Amaeth-Amgylcheddol

**55** Mae cynlluniau amaeth-amgylcheddol yn cynnwys Ardaloedd Amgylcheddol Sensitif (AAS), Cynllun Cynefin Tir Cymen, Tir Gofal a Thir Cynnal.

Formatted: Bullets and Numbering

**56** Pan fo llysiâu'r gingroen yn tyfu ar dir o fewn cytundeb amaeth-amgylcheddol a'i fod yn fygythiad i iechyd a lles anifeiliaid sy'n pori, a/neu o ran cynhyrchu bwyd neu borthiant, dylid eu rheoli'n briodol.

Formatted: Bullets and Numbering

57 Er y gall cytundebau unigol gyfyngu ar yr opsiynau rheoli, ni ddylai rheoli'r tir gael ei ddiystyru. Mae canllawiau ar gael o Swyddfeydd Rhanbarthol Adran Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad y Cynulliad (Atodiad II).

### Safleoedd dynodedig yn cynnwys Gwarchodfeydd Natur a Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) a Safleoedd Cadwraeth eraill yn Ewrop.

**58** Mae sawl rhywogaeth o'r creulys a rhywogaethau sy'n perthyn yn agos i'w cael fel planhigion cynhenid ar sawl Gwarchodfa Natur Leol a Chenedlaethol, SoDdGA a safleoedd eraill lle mae bioamrywiaeth a bywyd gwyllt yn cael ei werthfawrogi. Mae ambell rywogaeth o'r creulys yn brin.

Formatted: Bullets and Numbering

**59** Mae rheoli bywyd planhigion yn hanfodol i ecoleg gwarchodfeydd natur a SoDdGA ac mewn sefyllfaoedd o'r fath, gallai rheoli chwyn, gan gynnwys rheoli llysiâu'r gingroen, fod yn niweidiol i ddiddordebau cadwraeth natur y safle. (Cyfeiriad: Nodyn Gwybodaeth Llysiâu'r gingroen English Nature gweler Atodiad III).

Formatted: Bullets and Numbering

**60** Mewn sefyllfaoedd o'r fath rhaid ymgynghori â Chyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC) o flaen llaw cyn cymryd unrhyw gamau i weithredu a dylid ceisio caniatâd ynglŷn â'r dull rheoli mwyaf priodol (Atodiad II).

Formatted: Bullets and Numbering

**61** Ar safleoedd lle mae'n ofynnol rheoli'r borfa lle bo diddordeb bywyd gwyllt yn gysylltiedig â llysiâu'r gingroen yna dylid cynnal asesiad risg. Os yw gwenwyno o ganlyniad i lysiau'r gingroen yn peri risg, yna dylid cadw anifeiliaid sy'n pori allan o'r ardaloedd am gyfnod y risg, neu, dynnu llysiâu'r gingroen. Mae'n

Formatted: Bullets and Numbering

bosibl y bydd yr asesiad risg yn ystyried pa mor debygol yw'r anifeiliaid sy'n pori o gael eu heffeithio gan y planhigyn (rhywogaeth, brîd, oed, profiad, arferion pori), a oes porfa doreithiog flasus arall ar gael ac amodau'r tywydd ar y pryd.

| 62 Mewn safleoedd lle nad oes angen rheoli'r tir glas trwy bori, gallai llysiâu'r gingroen fod yn dderbyniol a chymryd nad yw'r planhigyn yn fygythiad i geffylau a da byw sy'n pori tir cyfagos i'r safle, neu dir cyfagos sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer cynhyrchu bwyd/porthiant. Formatted: Bullets and Numbering

| 63 Y ffactor allweddol yw faint o lysiau'r gingroen a geir yno mewn perthynas â'r risg o wasgaru hadau a fydd yn heintio tir a ddefnyddir ar gyfer pori a/neu gynhyrchu porthiant. Formatted: Bullets and Numbering

| 64 Dylai'r pwyslais fod ar 'atal' unrhyw heintio rhag digwydd trwy reolaeth, yn hytrach na 'rheoli' unrhyw heintio unwaith fod hynny wedi digwydd. Formatted: Bullets and Numbering

| 65 Lle mae angen rheoli poblogaeth llysiâu'r gingroen, dulliau rheoli trwy drin yn amaethyddol yw'r opsiwn orau. Formatted: Bullets and Numbering

### Henebion Rhestredig

| 66 Mae'n bosibl y bydd angen Caniatâd Henebyn Rhestredig (SMC) ar gyfer rheoli'r planhigyn neu gael gwared arno o dir sy'n cael ei ddiogelu fel Henebyn Rhestredig dan Ddeddf Henebion ac Ardaloedd Archeolegol 1979. Formatted: Bullets and Numbering

| 67 Mewn sefyllfaoedd o'r fath rhaid ymgynghori â Cadw a cheisio caniatâd ynglŷn â'r dull rheoli mwyaf priodol (Atodiad II). Formatted: Bullets and Numbering

### Tir Comin

| 68 Weithiau gall tir comin gynnwys nifer o rywogaethau gan gynnwys llysiâu'r gingroen. Pan fo llysiâu'r gingroen wedi'i nodi fel planhigyn sy'n peri risg i anifeiliaid sy'n pori ar y comin neu ar dir cyfagos a ddefnyddir ar gyfer pori a/neu gynhyrchu bwyd/porthiant, rhaid ei reoli. Formatted: Bullets and Numbering

| 69 Y sawl sydd yn gyfrifol am ei reoli yw perchennog cofrestredig y tir, y prydleswr neu feddiannydd y tir. Byddai hyn hefyd yn berthnasol mewn perthynas â thir comin. Serch hynny, ni fyddai gan y sawl â hawliau cominwyr gyfrifoldeb amdano gan amlaf. Formatted: Bullets and Numbering

### Tir a ddefnyddir ar gyfer pori

| 70 Deiliad y tir (perchennog neu denant) sydd yn gyfrifol am y tir a ddefnyddir i geffylau neu anifeiliaid eraill bori. Formatted: Bullets and Numbering

| 71 Gall llysiâu'r gingroen sy'n tyfu o fewn ardal sy'n cael ei phori beri risg uchel i dda byw sy'n pori yno, yn arbennig ceffylau, gan eu bod yn dueddol o ddiodef o effeithiau gwenwynig llysiâu'r gingroen os ydynt yn eu bwyta. Credir nad yw'n dderbyniol i geffylau bori ar dir lle mae llysiâu'r gingroen yn tyfu, a hynny ar sail lles anifeiliaid. Formatted: Bullets and Numbering

| 72 Dylid rhoi sylw arbennig i eginblanhigion llysiâu'r gingroen. Mae'n anos gweld y planhigyn yn y cyfnod hwn o dyfiant o'i gymharu â'r cyfnod pan fo'r planhigyn yn taflu ac o ganlyniad mae'n fwy tebygol o gael ei fwyta.

Formatted: Bullets and Numbering

| 73 Pan fo llysiâu'r gingroen wedi'i nodi fel planhigyn sy'n peri risg ganolig i uchel i anifeiliaid, dylid cymryd camau rheoli addas a lle bo'n bosibl dylid symud anifeiliaid o ffynhonnell y risg.

Formatted: Bullets and Numbering

### Cynhyrchu Porthiant

| 74 Mae tir glas a gedwir ar gyfer cynhyrchu porthiant: gwair, silwair sych, silwair a chnydau a dyfir ar gyfer gwellt sych, mewn perygl o gael eu heintio gan llysiâu'r gingroen.

Formatted: Bullets and Numbering

| 75 Nid yw'n hawdd gweld llysiâu'r gingroen unwaith eu bod wedi'u sychu. Maent yn parhau i fod yn hynod o wenwynig ac ni ellir cael gwared arnynt yn hawdd ac felly maent yn fwy tebygol o gael eu bwyta. Maent yn peri mwy o risg o ran gwenwyno'r anifail na phan gânt eu pori.

Formatted: Bullets and Numbering

| 76 Nid yw unrhyw fwyd neu borthiant sy'n cynnwys llysiâu'r gingroen yn ddiogel i'w fwydo i geffylau ac anifeiliaid eraill. Dylid datgan ei fod yn 'anaddas' fel bwyd ar gyfer anifeiliaid a dylid cael gwared arno'n ddiogel.

Formatted: Bullets and Numbering

| 77 Mae Deddf Amaethyddiaeth 1970 a Rheoliadau Bwydydd 2000 yn rheoli gwerthiant bwyd a phorthiant anifeiliaid. Yn ôl Rheoliad 14 mae'n drosedd gwerthu unrhyw ddefnydd i'w ddefnyddio fel bwydydd, y canfyddir, neu y darganfyddir drwy ddadansoddiad, ei fod yn afiach neu'n beryglus i unrhyw anifail amaethyddol, anifail anwes neu unigolyn.

Formatted: Bullets and Numbering

| 78 Dylid hysbysu Safonau Masnach os canfyddir bwydydd sy'n cynnwys llysiâu'r gingroen gan fod trosedd o bosibl wedi'i chyflawni.

Formatted: Bullets and Numbering

| 79 Mae colli cnwd o fwyd neu borthiant yn golled economaidd sydd â chanlyniadau difrifol i'r cynhyrchydd gan na fydd yn gallu ennill incwm oddi wrth y cnwd er iddo fynd i gostau o'i gynhyrchu.

Formatted: Bullets and Numbering

| 80 Mae'n hanfodol na chaniateir i llysiâu'r gingroen heintio tir a fwriedir ar gyfer cynhyrchu bwyd neu borthiant.

Formatted: Bullets and Numbering

### Tir glas Amwynder

| 81 Mae tir glas amwynder sy'n cynnwys meysydd chwaraeon, caeau chwarae, grîniau pentrefi a mannau â glaswellt o gwmpas adeiladau a gerddi, fel arfer wedi'u rheoli'n dda a'r risg yn isel fel arfer y bydd llysiâu'r gingroen yn heintio tir pori a thir a ddefnyddir ar gyfer cynhyrchu bwyd/porthiant.

Formatted: Bullets and Numbering

| 82 Er hynny, lle mae tir sydd heb ei reoli gystal, gall fod yn fgythiad os caniateir i llysiâu'r gingroen ymledu mewn ardaloedd na chânt eu torri'n aml neu ar derfyn allanol ardal amwynder. Mewn sefyllfaoedd o'r fath lle mae llysiâu'r gingroen yn

Formatted: Bullets and Numbering

peri risg o heintio tir cyfagos a ddefnyddir ar gyfer pori a/neu gynhyrchu bwyd/porthiant yna dylid cymryd camau rheoli effeithiol i atal llysiâu'r gingroen rhag ymledu.

- | **83** Dylai dulliau rheoli gymryd i ystyriaeth fynediad cyhoeddus a diogelwch a rhaid cynnal asesiad risg digonol a phriodol cyn rheoli'r planhigyn.

Formatted: Bullets and Numbering

### Priffyrdd

- | **84** Mae llysiâu'r gingroen yn aml i'w gweld yn tyfu ar ymyl priffyrdd yn cynnwys; traffyrdd, priffyrdd, ffyrdd cyhoeddus eraill a ffyrdd preifat. Gallant beri risg ddifrifol o heintio tir pori a thir a ddefnyddir ar gyfer cynhyrchu bwyd/porthiant o fewn y gymdogaeth. Pan fo llysiâu'r gingroen i'w cael ar ymylon ffyrdd a bod eu hymlediad yn peri risg ganolig i uchel i anifeiliaid sy'n pori a/neu o ran cynhyrchu bwyd/porthiant, rhaid eu rheoli.

Formatted: Bullets and Numbering

85 Cyfarwyddiaeth Trafnidiaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru sydd yn gyfrifol am reoli llystyfiant ymyl y ffordd, gan gynnwys llysiâu'r gingroen, ar draffyrdd a phriffyrdd, ond yr Awdurdod Priffyrdd Lleol sy'n gyfrifol am yr holl ffyrdd cyhoeddus eraill. Mae ffyrdd preifat yn gyfrifoldeb y perchennog.

- | **86** Mae problemau arbennig yn codi pan fo gwelliannau'n cael eu gwneud i'r ffordd neu rywbeth arall wedi amharu ar ymylon ffyrdd. Dylid ystyried camau arbennig i atal rhywogaethau chwyn ( yn cynnwys llysiâu'r gingroen) rhag sefydlu ym mlyneddoddd cynnar y gwaith o reoli ymylon priffyrdd newydd rhag i llysiâu'r gingroen ymsefydlu.

Formatted: Bullets and Numbering

- | **87** Mae gan weithdrefnau rheoli llysiâu'r gingroen oblygiadau o ran iechyd a diogelwch gweithwyr a thynnir sylw at y rhain yn y Cod hwn sy'n ymwneud â Gofynion Iechyd a Diogelwch. Ar gyfer ffyrdd deuol gyda chyfyngiadau cyflymder dros 50 mya rhaid dilyn gofynion Pennod 8 o'r Llawlyfr Arwyddion Traffig a "*Guidance for Safer Temporary Traffic Management on High Speed Roads – Good Working Practice*", a gyhoeddwyd gan y Labordy Ymchwil Trafnidiaeth (Atodiad III).

Formatted: Bullets and Numbering

### Rheilffyrdd

- | **88** Mae llysiâu'r gingroen i'w gweld yn aml yn tyfu wrth ochr rheilffyrdd ac, oherwydd maint y rhwydwaith rheilffyrdd, gall beri risg o heintio tir pori a thir a ddefnyddir ar gyfer cynhyrchu bwyd/porthiant o fewn y gymdogaeth. Yn yr un modd, bydd nifer y bobl sy'n byw o gwmpas y rhwydwaith o 30,000 hectar yn golygu y bydd llysiâu'r gingroen yn sicr o ymledu ar eiddo'r rheilffordd.

Formatted: Bullets and Numbering

- | **89** Cyfrifoldeb Rhwydwaith Rheilffyrdd yw'r gwaith o reoli llystyfiant ar dir y rheilffordd, gan gynnwys rheoli llysiâu'r gingroen, ac fe'i gwneir i sicrhau bod y risgiau y mae'r llystyfiant yn eu peri i drenau, i bersonél y rheilffordd a'r cyhoedd sy'n teithio yn cael eu lleihau gymaint ag sy'n ymarferol bosibl. Mae rheilffyrdd preifat yn gyfrifoldeb pwy bynnag sy'n berchen arnynt. Rheolir llysiâu'r gingroen mewn dull adweitheddol, gan ddelio gydag unrhyw heintio mewn man benodol.

Formatted: Bullets and Numbering



**90** Pan fo llysiâu'r gingroen yn tyfu ar dir rheilffordd a bod eu hymlediad yn peri risg ganolig i uchel i anifeiliaid sy'n pori a/neu gynhyrchu bwyd/porthiant rhaid eu rheoli. Gallai'r gwaith o reoli llysiâu'r gingroen ar arwynebau sy'n eiddo i ymgwymerwyr statudol sy'n gweithredu rheilffyrdd olygu dilyn gweithdrefnau diogelwch arbennig, gan gynnwys cau'r rheilffyrdd dros dro. Efallai y gellir cydgysylltu'r gwaith hwn â gweithgareddau eraill er mwyn osgoi costau neu anghyfleustra gormodol i deithwyr. Mae gan staff sy'n ymwneud â hyn fynediad i wybodaeth am ddiogelwch a'r amgylchedd er mwyn sicrhau nad yw'r gweithgareddau rheoli yn amharu ar y gwaith o redeg y rheilffordd nac yn tramgwyddo deddfwriaeth amgylcheddol. Yn unol â hyn, pan fo unigolyn yn poeni am llysiâu'r gingroen ar dir rheilffordd, byddai'n ddefnyddiol iddo drafod ag ymgwymerwyr statudol i geisio penderfynu beth sy'n gyfnod rhesymol o amser i gynnal gwaith clirio cyn gwneud cwyn i swyddfa berthnasol Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Formatted: Bullets and Numbering

### Ardaloedd Dyfrol

Formatted: Bullets and Numbering

**91** Gwelir creulys yn tyfu'n aml ar dir yn agos i ddŵr (mae hyn yn cynnwys afonydd, nentydd, ffrydiau, camlesi, pyllau a chronfeydd), ac yn arbennig felly y rhywogaethau prinnach. Ar y cyfan risg isel sydd yn gysylltiedig â llysiâu'r gingroen yn yr ardaloedd hyn.

Formatted: Bullets and Numbering

**92** Pan fo llysiâu'r gingroen yn tyfu ar dir sy'n agos i ddyfrffyrdd a bod eu hymlediad yn peri risg i anifeiliaid sy'n pori a/neu gynhyrchu bwyd/porthiant, rhaid eu rheoli.

Formatted: Bullets and Numbering

**93** Yn ôl Deddf Bwyd ac Amddiffyn yr Amgylchedd 1985 mae gorfodaeth arbennig ar holl ddefnyddwyr plaladdwyr i atal llygru dŵr. Ni chaniateir defnyddio unrhyw blaladdwyr mewn dŵr nac yn ymyl dŵr, oni bai fod defnydd o'r fath wedi'i gymeradwyo'n benodol.

Formatted: Bullets and Numbering

### Coetiroedd a Choedwigoedd

**94** Mewn coetiroedd a choedwigoedd, mae llysiâu'r gingroen yn peri risg isel ar y cyfan i anifeiliaid sy'n pori ac o ran cynhyrchu bwyd a phorthiant.

Formatted: Bullets and Numbering

**95** Pan fo llysiâu'r gingroen yn bresennol a'u hymlediad yn peri risg ganolig i uchel i anifeiliaid sy'n pori a/neu gynhyrchu bwyd/porthiant, rhaid eu rheoli.

Formatted: Bullets and Numbering

### Tir Datblygu, Gwastraff a Diffaith

**96** Mae'r categori hwn yn cynnwys safleoedd tir brown sy'n aros i'w datblygu, tir wedi'i adael, a thir na ddefnyddir ac na reolir o gwmpas ardaloedd datblygu.

Formatted: Bullets and Numbering

**97** Mae tir o fewn amgylchedd trefol yn peri risg isel ar y cyfan i anifeiliaid sy'n pori ac o ran cynhyrchu bwyd a phorthiant.

Formatted: Bullets and Numbering

**98** Disgwylir y bydd gan berchnogion, deiliad a rheolwyr tir o'r fath bolisiau yn eu lle ar gyfer adnabod, monitro a rheoli llysiâu'r gingroen ar dir sydd dan eu rheolaeth.

Formatted: Bullets and Numbering

- | **99** Pan fo llysiâu'r gingroen yn tyfu ar dir datblygu, gwastraff a thir wedi'i adael a'u bod yn peri risg i anifeiliaid sy'n pori a/neu gynhyrchu bwyd/porthiant, rhaid eu rheoli. Formatted: Bullets and Numbering

Tir Amddiffyn

- | **100** Mae'r Ystadau Amddiffyn (Asiantaeth Weithredol y Weinyddiaeth Amddiffyn), yn gweinyddu'r ystad amddiffyn ac maent yn gyfrifol am sicrhau bod y safonau priodol yn cael eu cynnal o ran rheoli chwyn ar dir amddiffyn sydd dan eu rheolaeth. Formatted: Bullets and Numbering

- | **101** Pan fo llysiâu'r gingroen yn bresennol ar dir amddiffyn a'u hymlediad yn peri risg i anifeiliaid sy'n pori a/neu gynhyrchu bwyd/porthiant, rhaid eu rheoli. Ni fydd Ystadau Amddiffyn yn rheoli llysiâu'r gingroen pan fo ordnans heb ffrwydro yn bresennol. Formatted: Bullets and Numbering

**HYSBYSU**

- | **102** Pan fo llysiâu'r gingroen yn peri risg ac angen eu rheoli, yn y lle cyntaf cysylltwch â'r perchennog/deiliad neu'r corff perthnasol. Mae cyrff sy'n rheoli neu'n berchen tir wedi'u rhestru yn Nhabl 2. Formatted: Bullets and Numbering

- | **103** Mae'n ofynnol yn ôl Deddf Chwyn 1959 bod perchnogion/deiliaid neu gyrff perthnasol yn cymryd camau i reoli ymlediad llysiâu'r gingroen. Formatted: Bullets and Numbering

Tabl 2 Cyrff sy'n berchen tir ac/neu yn ei reoli

<b>Lleoliad</b>	<b>Perchennog/Deiliad</b>
Eiddo preifat a masnachol a thir a ffyrdd preifat	Perchennog/Deiliad
Tir amaethyddol a da byw ac eithrio anifeiliaid a gedwir ar gyfer busnesau nad ydynt yn amaethyddol neu ar gyfer dibenion hamdden	Perchennog/Deiliad
Traffyrdd a phriffyrdd	Cyfarwyddiaeth Trafnidiaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru neu asiantaeth briffyrdd berthnasol
Holl ffyrdd cyhoeddus eraill	Awdurdod Priffyrdd Lleol
Tir Rheilffordd	Rhwydwaith Rheilffordd
Camlesi a Llwybrau halio	Dyfrffyrdd Prydain
Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol /SoDdGA	Cyngor Cefn Gwlad Cymru/Perchennog /Deiliad
Gwarchodfeydd Natur Lleol	Awdurdod Lleol/

Lleoliad	Perchennog/Deiliad
	Perchennog/Deiliad
Ardaloedd Comin/Tir Comin	Awdurdod Lleol/Perchennog
Tir y Weinyddiaeth Amddiffyn	Y Weinyddiaeth Amddiffyn
Tir Datblygu	Perchennog/Deiliad
Tir Cyngor Plwyf/Tref/Cymuned	Cyngor Plwyf/Cymuned/Tref
Coetir/Coedwig breifat	Perchennog/Deiliad
Coedwigoedd	Comisiwn Coedwigaeth Cymru

| **104** Er bod mwyaftrif y camlesi a'r ffyrdd halio yn berchen i Ddyrffyrdd Prydain a thir rheilffordd i Rwydwaith Rheilffordd, mae eithriadau.

Formatted: Bullets and Numbering

| **105** Pan fo hysbysiad yn methu â sicrhau unrhyw welliant neu na ellir dod o hyd i perchennog/deiliad y tir neu'r corff perthnasol, hy camau gweithredu i atal ymlediad llysiâu'r gingroen, dylid hysbysu Swyddfa Ranbarthol yr Adran Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad (Atodiad II).

Formatted: Bullets and Numbering

## DULLIAU RHEOLI

### Cyflwyniad

| **106** Unwaith bod penderfyniad wedi'i wneud bod angen rheoli llysiâu'r gingroen trwy ddefnyddio'r asesiadau risg o ymledu (Tabl 1 Categoriâu Risg) mae tri math o ddull rheoli: trin yn amaethyddol, cemegol a biolegol. O fewn y mathau hyn gellir defnyddio gwahanol ddulliau, yn dibynnu ar y lleoliad, lefel yr heintio a faint o reolaeth sydd ei angen.

Formatted: Bullets and Numbering

| **107** Dylid cynnal asesiad risg o ddefnyddio'r gwahanol fathau o reoli i benderfynu ar y dull rheoli mwyaf addas i atal llysiâu'r gingroen rhag ymledu dan eich amgylchiadau arbennig. Bydd y siart benderfynu yn Ffigur 1 yn eich helpu i ddewis y dull rheoli mwyaf priodol.

Formatted: Bullets and Numbering

### Rheoli Tir mewn dull Ataliol

| **108** Mae'r adran hon yn rhoi gwybodaeth am y gwahanol dechnegau sydd ar gael i reoli llysiâu'r gingroen rhag ymledu gan gynnwys rheoli tir, gan fod rheoli tir mewn dull ataliol yn gallu bod yr un mor bwysig â dulliau rheoli gweithredol i atal llysiâu'r gingroen rhag sefydlu.

Formatted: Bullets and Numbering

| **109** Bydd rheoli tir glas yn well gan hybu trwch o laswelltau yn atal llysiâu'r gingroen rhag sefydlu. Pan fo glastir agored yn cael ei greu drwy or-bori neu dan-bori, mae llysiâu'r gingroen a chwyn eraill yn fwy tebygol o sefydlu. Er hynny, mae'n bosibl na fydd hwn yn bolisi da ar safleoedd lle mae'r borfa'n amrywio'n fotanegol. Mewn achosion o'r fath mae cynnal yr amrywiaeth hwn gan amlaf yn dibynnu ar borfa fwy agored.

Formatted: Bullets and Numbering

| 110 Gall glastir trwchus atal llysiâu'r gingroen rhag egino, ond unwaith y mae wedi sefydlu nid yw tyfiant trwchus yn atal y planhigyn rhag tyfu. Er hynny, unwaith y mae cerbydau yn tarfu ar y pridd neu bridd yn cael ei godi mae mwy o risg y bydd llysiâu'r gingroen yn sefydlu ac mae'n bosibl y bydd angen eu rheoli maes o law.

Formatted: Bullets and Numbering

| 111 Gall unrhyw niwed i'r glastir gan anifeiliaid yn ei bori (carnau anifeiliaid yn niweidio'r borfa) a niwed i wyneb y borfa gan gerbydau hybu hadau llysiâu'r gingroen i egino ac, mewn glastir agored, sefydlu.

Formatted: Bullets and Numbering

| 112 Mae tir lle mae cwingod yn crafu ac yn tyrchu yn creu amodau delfrydol i llysiâu'r gingroen egino gan arwain at heintio'r tir. Mewn sefyllfaoedd lle mae angen rheoli llysiâu'r gingroen, mae'n bosibl y bydd angen rheoli'r boblogaeth o gwingod er mwyn sicrhau bod llysiâu'r gingroen yn cael eu rheoli'n effeithiol yn y tymor hir.


Formatted: Bullets and Numbering

| 113 Lle bynnag bo hynny'n bosibl, dylai tir sydd heb ei drin gyda lefelau isel o llysiâu'r gingroen gael ei adael heb ei drin.

Formatted: Bullets and Numbering



**Ffigur 1. Siart Penderfynu i'ch Helpu i Ddewis y Dull Rheoli Mwyaf Addas**



## Trin yn Amaethyddol

- | **114** Mae nifer o ddulliau o reoli llysiau'r gingroen rhag ymledu trwy drin yn amaethyddol sy'n cynnwys pori, tynnu a thorri. Bydd Ffigur 2 yn eich helpu i ddewis y dull rheoli mwyaf addas. Formatted: Bullets and Numbering

### Pori

- | **115** Gall pob anifail sy'n pori ddioddef o effeithiau gwenwynig llysiau'r gingroen ac felly ni argymhellir gadael i ddefaid, geifr na da byw eraill bori'r tir fel dull o reoli'r planhigyn a hynny ar sail lles anifeiliaid. Formatted: Bullets and Numbering

### Tynnu a Chodi Gydag Offer

- | **116** Gall tynnu neu godi planhigion gydag offer atal hadau rhag gwasgaru a gall reoli'r sefyllfa yn y tymor hir er y gall unrhyw ddarnau o wreiddiau na thynnwyd mohonynt gynhyrchu tyfiant gwan. Mae tynnu'r planhigyn â llaw yn addas ar gyfer ardaloedd llai ond ar gyfer ardaloedd mwy dylid ystyried defnyddio peiriant i'w codi. Mae dewis o offer llaw ar gael ar gyfer eu codi a'r adeg orau i wneud hyn yw pan fo'r pridd yn llaith a chyn i llysiau'r gingroen fynd i had. Mewn unrhyw le heblaw ardaloedd bach o dir, dylid ystyried tynnu â llaw fel dull o reoli'r planhigyn mewn argyfwng. Formatted: Bullets and Numbering

- | **117** Mae llwyddiant yn dibynnu ar sylwi ar y planhigion a pha mor effeithiol y tynnir-gwreiddyn y planhigyn. Wrth dynnu â pheiriant mae angen gwahaniaeth uchder rhwng llysiau'r gingroen a phlanhigion eraill. Mae tynnu â llaw neu â pheiriant yn gweithio orau pan fo'r pridd yn llaith. Fel rheol mae angen ailadrodd y gwaith. Formatted: Bullets and Numbering

- | **118** Gall cyfuniad o dynnu â llaw/pheiriant neu dynnu ag offer a lleihau unrhyw darfu ar y pridd fod yn effeithiol i atal llysiau'r gingroen, os caiff hyn ei ailadrodd am nifer o flynyddoedd, heb orfod defnyddio chwynladdwr. Formatted: Bullets and Numbering

- | **119** Wrth dynnu neu godi ag offer neu drin planhigion llysiau'r gingroen (ffres ac wedi'u sychu) rhaid amddiffyn y corff trwy wisgo dillad amddiffynnol addas i atal planhigion llysiau'r gingroen rhag dod i gysylltiad â'r croen. Formatted: Bullets and Numbering

- | **120** Rhaid cael gwared ar blanhigion sydd wedi'u codi neu eu tynnu yn ddiogel (gweler yr adran sy'n dwyn y teitl 'Cael gwared ar llysiau'r gingroen', tudalen 35) gan y gall planhigion sydd wedi gwywo gael eu bwyta'n rhydd o hyd a pharhau i fod yn wenwynig. Formatted: Bullets and Numbering

### Torri

- | **121** Dull i'w ddefnyddio pan fydd popeth arall wedi methu yw torri a dylid gwneud hyn yn unig i leihau'r hadau sy'n cael eu cynhyrchu a'u gwasgaru pan na ellir defnyddio dulliau rheoli mwy effeithiol eraill. Formatted: Bullets and Numbering

- | **122** Mae torri yn annog y planhigion i dyfu ac maent wedyn yn ail-flodeuo yn ddiweddarach yn y tymor. Formatted: Bullets and Numbering

| **123** Mae torri a thynnu'r coesau pan fo'r planhigyn yn ei gyfnod cynnar o ran tyfiant yn lleihau'r hadau sy'n cael eu cynhyrchu ond nid yw'n difa'r planhigyn, gan ei newid o blanhigyn eifflwydd i fod â natur luosflwydd ac felly bydd angen ailadrodd y triniaethau i atal llysiâu'r gingroen rhag mynd i had.

Formatted: Bullets and Numbering

